YR EGLWYS YNG NGHYMRU | THE CHURCH IN WALES

**CRONFA BUDDSODDIADAU CYFFREDIN YR EGLWYS YNG NGHYMRU**

# Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr

# 2022



# Cynnwys

Adroddiad yr Ymddiriedolwr ........................................... 1

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr ....................... 6

Gwybodaeth Weinyddol .................................................... 7

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i'r Ymddiriedolwr ....... 9

Datganiad o Gyfanswm y Derbyniadau ........................... 12

Datganiad o Newid mewn Asedau Net .............................12

Mantolen ......................................................................... 13

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol ............................... 14

# Adroddiad yr Ymddiriedolwr

## Strwythur

Cynllun buddsoddi cyfunol yw Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd gan Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru (Corff y Cynrychiolwyr) dan gynllun a gymeradwywyd gan y Comisiwn Elusennau ar 11 Rhagfyr 2008, er mwyn buddsoddi arian sy'n perthyn i unrhyw elusen y mae Corff y Cynrychiolwyr yn Ymddiriedolwr arni neu sydd o fudd i elusen o'r fath.

Corff y Cynrychiolwyr yw Ymddiriedolwr y Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin, ac mae wedi penodi ei Bwyllgor Buddsoddi i oruchwylio'r Gronfa. Mae'r Pwyllgor Buddsoddi'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, yn derbyn adroddiadau chwarterol gan Reolwr y Gronfa, ac yn monitro strategaeth y Gronfa a'i pherfformiad.

Rheolir y Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin gan Reolwr y Gronfa (Newton Investment Management) yn unol â Chytundeb Rheoli Buddsoddiadau, ac fe'i gweinyddir gan staff Corff y Cynrychiolwyr.

## Disgrifiad o'r Gronfa

Mae'r Gronfa'n addas ar gyfer buddsoddi gan blwyfi pan ddymunir twf hirdymor mewn cyfalaf, lefel resymol o incwm a chynnydd mewn incwm. Nid yw'n addas ar gyfer arian y mae'n debyg y bydd ei angen yn y dyfodol agos.

Gellir buddsoddi cronfeydd plwyfi ac ymddiriedolaethau o gymynroddion a rhoddion yn y Gronfa.

Rhennir yr ymddiriedolaethau a ddelir yn y Gronfa yn ymddiriedolaethau gwariadwy ac ymddiriedolaethau anwariadwy. Yn y rhan fwyaf o achosion, fe grynhoir incwm ymddiriedolaethau gwariadwy ac yna naill ai ei ail-fuddsoddi neu ei dalu i'r plwyf. Fel rheol, dosberthir incwm ymddiriedolaethau anwariadwy yn chwarterol.

## Adroddiad Buddsoddi

### Amcanion Buddsoddi

Ystyrir y Gronfa'n gyfrwng buddsoddi tymor canolig i hirdymor i ymddiriedolaethau a chronfeydd plwyfol, a'i nod a'i diben y:

- sicrhau cydbwysedd rhwng lefelau cynaliadwy o incwm â thwf mewn cyfalaf;
- cael y cyfanswm enillion uchaf posibl heb risg gormodol;
- gweithredu o fewn cyfyngiadau Polisi Buddsoddi Moesegol yr Eglwys yng Nghymru.

### Cymharydd Perfformiad

Caiff perfformiad y Gronfa ei fesur ar sail cyfanswm enillion (yr enillion cyfunol o incwm a chyfalaf) yn erbyn y Teknometry CIG Charity Fund Universe a chyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Buddsoddi bob chwarter.

Mae'r Teknometry CIG Charity Fund Universe yn cynnwys nifer fawr o gronfeydd elusen ac felly mae'n darparu cymhariaeth o berfformiad y Gronfa yn erbyn cyfartaledd enillion cronfeydd elusennau eraill.

### Polisi Buddsoddi Moesegol

Buddsoddir y Gronfa yn unol â Pholisi Buddsoddi Moesegol yr Eglwys yng Nghymru, a mabwysiadwyd fersiwn ddiwygiedig ohono gan Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru ym mis Ebrill 2021.

Mae'r Polisi'n gwahardd buddsoddi mewn cwmnïau sy'n ymwneud ag arfau, gweithgareddau benthyca rheibus a phornograffi, mae'n cyfyngu ar fuddsoddi mewn cwmnïau sy'n ymwneud â gamblo, alcohol a thybaco, cynhyrchu neu echdynnu tanwydd ffosil ac mae'n ceisio hyrwyddo lefelau da o lywodraethu amgylcheddol a chymdeithasol cyfrifol. Ceir copi llawn o'r Polisi yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, ac mae ar gael ar wefan yr Eglwys hefyd yn: www.churchinwales.org.uk.

## Rheolwyr Buddsoddi

Penodwyd Newton Investment Management i reoli'r gronfa buddsoddiadau yn y gyfnewidfa stoc ar fandad Aml-Asedau Byd-eang.

## Asedau

Dyma amrediad y dosbarthiadau asedau ar gyfer 2022:

| Dosbarth Asedau | Ecwitïau'r DU | Ecwitïau Tramor | Llog Sefydlog | Amgen | Arian |
|---|---|---|---|---|---|
| Amrediad Dyrannu | 15-35% | 10-55% | 15-35% | 0-10% | 0-25% |
| Dyraniad ar 31/12/22 | 17% | 41% | 30% | 9% | 3% |

Y deg daliad uchaf yn y Gronfa ar 31 Rhagfyr 2022 oedd:

| Stoc | Gwerth £000 | % o'r Gronfa |
|---|---|---|
| BNY Mellon Global Dynamic Bond Fund | 3,366 | 4.7 |
| 2.75% UK Treasury Gilt 2024 | 2,881 | 4.1 |
| 2.25% UK Treasury Gilt 2023 | 2,495 | 3.5 |
| Microsoft Corp | 1,765 | 2.5 |
| 1.5% USA Treasury Notes 2030 | 1,430 | 2.0 |
| 3.25% UK Treasury Gilt 2044 | 1,242 | 1.7 |
| Unilever Plc | 1,240 | 1.7 |
| Linde Plc | 1,182 | 1.7 |
| AstraZeneca Plc | 1,150 | 1.6 |
| AIA Group Ltd | 1,148 | 1.6 |

# Adroddiad yr Ymddiriedolwr

Roedd y Gronfa wedi'i buddsoddi yn y sectorau canlynol ar 31 Rhagfyr 2022:

| | Gwerth (£000) | % o'r Gronfa |
|---|---|---|
| **Llog Sefydlog** | | |
| Bondiau Llywodraeth Prydain | 11,088 | 16.0 |
| Bondiau'r DU | 2,329 | 3.4 |
| Bondiau Tramor | 4,348 | 6.3 |
| Cronfeydd Bondiau Byd-eang | 3,366 | 4.8 |
| **Cyfanswm Llog Sefydlog** | **21,131** | **30.5** |
| **Ecwitïau** | | |
| Nwyddau Traul | 6,834 | 9.8 |
| Gwasanaethau Defnyddwyr | 1,462 | 2.1 |
| Ariannol | 8,025 | 11.6 |
| Gofal Iechyd | 6,850 | 9.9 |
| Diwydiannol | 7,142 | 10.2 |
| Deunyddiau | 2,399 | 3.5 |
| Ynni Adnewyddadwy | 3,579 | 5.2 |
| Technoleg | 6,755 | 9.7 |
| Cyfleustodau | 2,265 | 3.3 |
| **Cyfanswm Ecwitïau** | **45,311** | **65.3** |
| Asedau Amgen | 1,460 | 2.0 |
| Eiddo Anuniongyrchol | 1,503 | 2.2 |
| | **69,405** | **100.0** |

Cynhyrchodd y Gronfa gyfanswm enillion o -8.4% yn 2022 o gymharu ag enillion Teknometry Comparator o -11.3% a chwyddiant (RPI) o 13.4%.

Roedd y Gronfa wedi perfformio'n well na'r Comparator hefyd dros y cyfnodau 3 a 5 mlynedd hyd at 31 Rhagfyr 2022, gan gynhyrchu cyfanswm enillion blynyddol o 3.8% a 5.3% yn y drefn honno.

### Perfformiad

| Cyfanswm enillion blynyddol hyd at 31 Rhagfyr | 2022 % | 2021 % | 2020 % | 3 blynedd % | 5 mlynedd % |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa** | **-8.4** | 12.4 | 8.7 | 3.8 | 5.3 |
| **Cymharydd Teknometry** | **-11.3** | 12.1 | 5.4 | 1.6 | 3.1 |
| **RPI** | **13.4** | 7.5 | 1.2 | 7.4 | 5.4 |
| **CPI** | **10.5** | 5.4 | 0.6 | 5.5 | 4 |

## Adolygiad o'r farchnad 2022

Roedd 2022 yn gyfnod arbennig o heriol i farchnadoedd ariannol. Er mai ymosodiad Rwsia ar Wcráin ddiwedd mis Chwefror oedd y digwyddiad geowleidyddol ac economaidd diffiniol a'r catalydd amlwg ar gyfer gwendid y farchnad ecwiti, roedd mynegeion ecwiti eisoes wedi bod dan bwysau sylweddol gydol mis Ionawr. Yr achos agosaf oedd tynhau'r polisi ariannol yn yr Unol Daleithiau, wrth i'r Gronfa Ffederal, ar ôl cwympo 'y tu ôl i'r gromlin' wrth fynd i'r afael â phwysau chwyddiant, ddangos arwyddion y byddai codiadau i gyfradd llog yr Unol Daleithiau yn digwydd yn gynharach, ac o bosibl y byddai natur y codiadau hynny yn fwy digyfaddawd, na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol. Fe wnaeth y camau hynny godi arenillion bondiau'r llywodraeth yn sylweddol uwch, ac yn y farchnad ecwiti, rhoddodd hynny bwysau difrifol ar ecwiti hirdymor. Fodd bynnag, fe wnaeth llawer o'r enwau hyn gymedroli eu colledion drwy gymryd rhan ystyrlon mewn adferiad ehangach a ddatblygodd tua diwedd chwarter cyntaf 2022 wrth i fynegeion fownsio.

Fe wnaeth pryderon ynghylch newid mewn polisi ariannol byd-eang barhau i bwyso ar ecwiti yn ail chwarter 2022, gyda phrisiadau yn cael eu hymestyn yn destun pryder yn wyneb banciau canolog hebogaidd. Roedd rhagor o gyfyngiadau symud cysylltiedig â Covid-19 yn Tsieina hefyd yn pwyso ar awydd buddsoddwyr o ystyried y goblygiadau ar gyfer twf economaidd a chadwyni cyflenwi. Roedd risg o ddirwasgiad tua diwedd y cyfnod adolygu yng nghanol pryderon ynghylch cylch byd-eang mwy digyfaddawd, dan arweiniad Fed llawer mwy tynn mewn ymateb i'r ffaith bod chwyddiant yn ei ôl.

Ar ôl dechrau addawol a nodwyd gan ymwroli cryf gan y farchnad ecwiti ym mis Gorffennaf, profodd trydydd chwarter 2022 yn gyfnewidiol iawn gyda gostyngiadau sydyn, eang yn cael eu gweld ym mhob un o ddosbarthiadau'r asedau mawr. Cafodd gobeithion buddsoddwyr am 'golynnu' gan y Fed o ran y llwybr cyfraddau llog eu chwalu yn gynnar yn y chwarter wrth iddi ddod yn fwyfwy amlwg mai blaenoriaeth y banc canolog oedd dileu chwyddiant yn hytrach na chefnogi'r economi a phrisiau asedau ariannol. Atgyfnerthwyd rhethreg o'r fath gyda chodiadau i gyfraddau llog gan y Fed, Banc Canolog Ewrop a Banc Lloegr, gan arwain marchnadoedd i fynd ati'n gyflym i brisio codiadau i gyfraddau llog mewn dull mwy digyfaddawd. Roedd ymddygiad hebogaidd y Banc Canolog yn digwydd ar yr un pryd â'r aflonyddwch mawr i gyflenwad ynni Ewrop, effaith ganlyniadol y gwrthdaro rhwng Wcráin a Rwsia, ac arweiniodd hynny at bryderon cynyddol am y tebygolrwydd o ddirwasgiad.
Yn ddiweddarach ym mis Medi, datblygodd y cyfaddawd yn rhywbeth tebyg i argyfwng hylifedd a effeithiodd ar ddosbarthiadau asedau mawr, gyda phob un yn gostwng ar yr un pryd. Yn olaf, roedd cynnwrf difrifol ym marchnad giltiau'r DU a ddeilliodd o gyllideb fach y DU.

Yn ystod chwarter olaf 2022, fe wnaeth ecwiti adennill peth o'r tir a gollwyd yn gynharach yn y flwyddyn. Parhaodd y rhagolygon ar gyfer chwyddiant, ac fe wnaeth llwybr polisi ariannol barhau i dra-arglwyddiaethu'r naratif yn y marchnadoedd ariannol. Yn gynnar ym mis Hydref, yn sgil tystiolaeth bod twf prisiau yn arafu yn adroddiad Gweithgynhyrchu Sefydliad Rheoli Cyflenwi (ISM) yr Unol Daleithiau, cododd y gobeithion bod chwyddiant wedi cyrraedd penllanw, gan sicrhau cychwyn da i asedau risg. Cynyddodd y momentwm cadarnhaol ymhellach fis yn ddiweddarach, wrth i chwyddiant prisiau defnyddwyr yr Unol Daleithiau fod yn is na'r disgwyl, datblygiad a arweiniodd at arenillion bond y llywodraeth yn lleihau hefyd. Fodd bynnag, er gwaethaf y llif newyddion calonogol hwn, roedd bancwyr canolog yn mynnu parhau i fod yn hebogaidd, o ran eu rhethreg a'u gweithredoedd. Ar ddiwedd y chwarter, fe wnaeth hyd yn oed Banc Japan, a oedd ar ei ben ei hun hyd yma o ran arferion tynhau ariannol, synnu buddsoddwyr drwy gymedroli ei bolisi o reoli'r gromlin arenillion wrth iddo godi'r cap ar gyfraddau llog hirdymor y wlad. Cyfrannodd y datblygiadau hyn at y duedd ehangach o gymryd elw i ddiwedd y flwyddyn, o ran ecwitïau a bondiau'r llywodraeth.

## Strategaeth Fuddsoddi

Caiff y portffolio ei fuddsoddi mewn daliadau uniongyrchol mewn ecwitïau a bondiau sy'n cydymffurfio â Pholisi Buddsoddi Moesegol yr Eglwys yng Nghymru. Er mwyn cynnal proffil risg priodol yn y portffolio, mae'r daliadau'n cael eu hamrywio yn ôl sector, diwydiant, daearyddiaeth ac arian cyfred. Yn unol â chyngor y Comisiwn Elusennau, nid oes daliad (ac eithrio amlygiad i fondiau llywodraeth y DU) sy'n fwy na 5% o werth y portffolio.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwr

## Rhagolwg

Yn erbyn cefndir o newidiadau strwythurol a phroses o dynnu'n ôl polisi ariannol hyblyg y daeth cyfranogwyr y farchnad yn gyfarwydd â nhw dros y degawd diwethaf, bydd yn ofynnol i fuddsoddwyr lywio cyfuniad heriol o chwyddiant uwch, rhagolwg twf gwannach a thensiynau geowleidyddol yn 2023.

Er ei bod yn bosibl bod chwyddiant wedi cyrraedd penllanw, mae agweddau ohono yn debygol o barhau yn uchel am beth amser mewn ymateb i dueddiadau fel y cynnydd mewn cyflogau a dadglobaleiddio. Er y gallai diwedd ar dynhad y gyfradd llog fod yn agosáu, mae'n anodd rhagweld toriadau yn 2023 yn absenoldeb digwyddiad niweidiol mawr, yn enwedig gan fod y prif fanciau canolog wedi bod yn ategu eu penderfynoldeb i dawelu chwyddiant ac atal rownd niweidiol ddilynol o godiadau mewn prisiau.

Yn anffodus, ymddengys fod gweithredoedd Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau a banciau canolog eraill yn mynd i achosi i dwf arafu ac mae'n ymddangos yn fwyfwy tebygol y gallai economïau mwy gwydn fyth brofi dirwasgiad.

Mewn amgylchedd o'r fath, bydd cyfleoedd o hyd ar gyfer buddsoddwyr hirdymor ond rydym yn disgwyl gweld llawer mwy o amrywiadau yn y canlyniad ar gyfer gwahanol asedau a chredwn fod angen dangos ymagwedd o ddoethineb er mwyn sicrhau canlyniadau deniadol.

## Rhybudd Risg

Gall gwerth y Gronfa Buddsoddi ar y Cyd a'r incwm sy'n deillio o'r Gronfa ostwng yn ogystal â chynyddu, ac nid yw wedi'i warantu sy'n golygu efallai na fydd plwyfi yn derbyn y swm a fuddsoddwyd yn wreiddiol. Nid yw perfformiad yn y gorffennol yn gwarantu enillion yn y dyfodol. Bydd gwerth y cyfranddaliadau yn y Gronfa yn adlewyrchu newidiadau ym mhris dosbarthiadau'r asedau y mae'r Gronfa yn cael ei buddsoddi ynddynt, a symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid arian cyfred tramor.

## Ystadegau'r Gronfa

| Dyddiad Prisio | Cyfranddaliadau yn y dyroddiad | Gwerth Clir yr Ased* (ceiniog y cyfranddaliad) | Difidend Blynyddol (ceiniog y cyfranddaliad) | Llog | Cyfanswm Gwerth y Gronfa £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 Ionawr 2009 | 25,962,753 | 100.00 | | | |
| 31 Rhagfyr 2009 | 27,008,033 | 118.49 | 3.61 | 3.05% | £32,002 |
| 31 Rhagfyr 2010 | 26,940,059 | 124.41 | 4.02 | 3.23% | £33,517 |
| 31 Rhagfyr 2011 | 26,908,705 | 118.32 | 4.47 | 3.78% | £31,839 |
| 31 Rhagfyr 2012 | 27,224,411 | 125.54 | 4.30 | 3.43% | £34,177 |
| 31 Rhagfyr 2013 | 27,509,681 | 141.72 | 4.09 | 2.89% | £38,986 |
| 31 Rhagfyr 2014 | 28,824,005 | 152.75 | 4.16 | 2.72% | £44,030 |
| 31 Rhagfyr 2015 | 29,033,039 | 150.36 | 4.35 | 2.89% | £43,654 |
| 31 Rhagfyr 2016 | 29,207,207 | 169.91 | 4.24 | 2.49% | £49,627 |
| 31 Rhagfyr 2017 | 29,426,621 | 183.17 | 4.25 | 2.32% | £53,900 |
| 31 Rhagfyr 2018 | 30,094,661 | 174.69 | 4.33 | 2.48% | £52,574 |
| 31 Rhagfyr 2019 | 31,505,212 | 199.63 | 4.96 | 2.48% | £62,893 |
| 31 Rhagfyr 2020 | 32,370,166 | 211.75 | 3.68 | 1.74% | £68,544 |
| 31 Rhagfyr 2021 | 33,065,246 | 234.13 | 4.12 | 1.76% | £77,634 |
| 31 Rhagfyr 2022 | 33,910,977 | 209.56 | 4.55 | 2.17% | £71,065 |

[*Yn seiliedig ar bris canolig ac nid ar bris y cynnig.]

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr

Mae'r Ymddiriedolwr (Corff y Cynrychiolwyr) yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol ac â Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (yr Arfer a Dderbynnir yn Gyffredin yn y Deyrnas Unedig).

Mae'r gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolwr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr y Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin ac o'r incwm clir, yr enillion cyfalaf clir a'r newid yn yr asedau clir dros y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, rhaid i'r Ymddiriedolwyr:

- ddethol polisïau cyfrifyddu adaas a'u cymhwyso gyda chysondeb;
- dilyn dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arfer a Argymhellir i Gronfeydd Awdurdodedig a gyhoeddwyd gan yr IMA ym Mai 2014 a'u diweddaru yn Rhagfyr 2015;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, ac eithrio unrhyw wahaniaethau perthnasol a ddatgelir ac a esbonnir yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw, onid yw'n anaddas cymryd yn ganiataol y bydd y Gronfa'n parhau i weithredu.

Mae'r Ymddiriedolwr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol a fydd yn dangos gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin ac yn galluogi'r Ymddiriedolwr i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â gofynion Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Elusennau 2008 a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolwr yn gyfrifol hefyd am warchod asedau'r Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin ac, o ganlyniad, am gymryd camau rhesymol i rwystro ac i ddatgelu twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

# Gwybodaeth Weinyddol

## Buddsoddi yn y Gronfa

Gellir buddsoddi cymynroddion, arian plwyfi ac ymddiriedolaethau yn y Gronfa trwy gwblhau gweithred ymddiriedolaeth yn penodi Corff y Cynrychiolwyr yn Ymddiriedolwr. Gellir cael copi gan Gyfreithiwr Ymddiriedolaeth Corff y Cynrychiolwyr, Miss Natasha Aldridge.

Buddsoddir bob chwarter (Mawrth, Mehefin, Medi a Rhagfyr) ar sail prisiant o'r gronfa ar ddiwedd y chwarter.

Amodau'r rhodd neu'r gymynrodd a fydd yn penderfynu a fuddsoddir yr arian fel arian gwariadwy neu arian anwariadwy, a hynny, yn ei dro, fydd yn penderfynu a delir incwm yn chwarterol neu ar gais y plwyf.

## Incwm

Os oes incwm ar gael at amcanion penodol, fel atgyweirio'r eglwys, yna fe'i dosberthir pan dderbynnir y dogfennau canlynol:

a) copi o Gofnod y Cyngor Plwyf Eglwysig yn datgan bod y Cyngor yn dymuno cael swm penodol o'r arian a ddelir mewn ymddiriedolaeth (nodwch enw neu gyfeirnod PT yr ymddiriedolaeth) a pham mae angen yr arian;

b) llythyr cais wedi'i lofnodi gan y periglor a'r ddau warden eglwys sy'n gofyn am swm penodol, pam mae angen yr arian ac enw/cyfeirnod y gronfa ymddiriedolaeth y mae'r cyfranddaliadau i'w gwerthu ohoni; a

c) dyfynbris neu anfoneb am y swm y gofynnwyd amdani o leiaf. Gan fod yr Ymddiriedolwyr dan ddyletswydd ymddiriedol i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n unol â thelerau'r ymddiriedolaeth os caiff dyfynbrisiau, yn hytrach nag anfonebau, eu cyflwyno, bydd arian yn cael ei ryddhau ar ôl derbyn anfoneb daledig neu, fel arall, gallwn drefnu talu'r anfoneb yn uniongyrchol i'r contractwr. Yna gellir ffeilio'r anfonebau fel tystiolaeth bod yr arian wedi'i ddefnyddio yn unol â thelerau'r ymddiriedolaeth.

## Datganiadau Blynyddol yr Ymddiriedolaeth

Pan na fydd plwyf yn derbyn incwm bob chwarter na hysbysiad dosbarthu blynyddol, fe gaiff ddatganiad blynyddol gan yr ymddiriedolaeth ar ddiwedd pob blwyddyn yn dangos yr incwm a'r gwariant ac unrhyw drafodion a fu ar gyfranddaliadau'r ymddiriedolaeth.

Bydd y wybodaeth hon yn angenrheidiol ar gyfer cyfrifon blynyddol y plwyf.

Bydd plwyfi sy'n derbyn incwm chwarterol yn derbyn hysbysiad dosbarthu ar ddiwedd pob blwyddyn yn dangos nifer y cyfranddaliadau yn yr ymddiriedolaeth, a'u gwerth, a bydd y wybodaeth honno'n ddigonol ar gyfer cyfrifon blynyddol y plwyf.

### Tynnu Cyfalaf neu Incwm o'r Gronfa

Os yw telerau'r ymddiriedolaeth yn caniatáu codi arian cyfalaf a chronedig, yna bydd angen cymeradwyaeth yr Ymddiriedolwyr fel arfer. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn a bydd angen y dogfennau canlynol arnynt:

a) copi o Gofnod y Cyngor Plwyf Eglwysig yn datgan bod y Cyngor yn dymuno cael swm penodol o'r arian a gaiff ei ddal mewn ymddiriedolaeth (nodwch enw neu gyfeirnod PT yr ymddiriedolaeth) a pham mae angen yr arian; a

b) llythyr cais wedi'i lofnodi gan y periglor a'r ddau warden eglwys yn gofyn am swm penodol, pam mae angen yr arian ac enw/cyfeirnod y gronfa ymddiriedolaeth y mae'r cyfranddaliadau i'w gwerthu ohoni; a

c) dyfynbris neu anfoneb am y swm y gofynnwyd amdano o leiaf. Gan fod yr Ymddiriedolwyr dan ddyletswydd ymddiriedol i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn unol â thelerau'r ymddiriedolaeth os caiff dyfynbrisiau, yn hytrach nag anfonebau, eu cyflwyno, bydd arian yn cael ei ryddhau ar ôl derbyn anfoneb daledig neu, fel arall, gallwn drefnu talu'r anfoneb yn uniongyrchol i'r contractwr. Yna gellir ffeilio'r anfonebau fel tystiolaeth bod yr arian wedi'i ddefnyddio yn unol â thelerau'r ymddiriedolaeth.

Dylid cyfeirio cwestiynau am fuddsoddiadau a chodi arian o'r gronfa at Miss Natasha Aldridge, ffôn 029 2034 8230 neu e-bost natashaaldridge@churchinwales.org.uk

**Cynghorwyr Buddsoddi:**
Newton Investment Management
BNY Mellon Financial Centre
160 Queen Victoria Street
Llundain
EC4V 4LA

**Archwilwyr Annibynnol:**
Haysmacintyre LLP
10 Queen Street Place
Llundain
EC4R 1AG

**Gweinyddiaeth Gyffredinol:**
Louise Davies
Pennaeth Cyllid
2 Sgwâr Callaghan
Caerdydd
CF10 5BT

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i'r Ymddiriedolwr

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022 sy'n cynnwys y Datganiad o Gyfanswm y Derbyniadau, Datganiad o Newid mewn Asedau Net, y Fantolen a nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi. Yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig gan gynnwys Safon 102 ar Adrodd Ariannol, The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2022 ac o newidiadau clir cronfeydd y gronfa ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig.
- Wedi'u paratoi'n unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

## Sail ein barn

Cawsom ein penodi'n archwilydd dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac rydym yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n cael effaith o dan y ddeddf honno. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISA (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y Gronfa yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol (FRS), ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol er mwyn darparu sail i'n barn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, daethom i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail busnes hyfyw o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau fel busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd yn Adroddiad yr Ymddiriedolwr. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r graddau y nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd mewn perthynas â hynny.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, rydym yn gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu a yw ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall yn gamddatganiad o bwys. Os byddwn yn nodi anghysondeb neu gamddatganiadau o bwys o'r fath, mae'n ofynnol i ni bennu a oes yna gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol neu yn y wybodaeth arall. Os byddwn yn dod i'r casgliad bod yna gamddatganiad o bwys yn y wybodaeth arall hon, ar sail y gwaith rydym wedi'i gyflawni, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

### Materion y mae’n ofynnol i ni adrodd amdanynt trwy eithriad

Nid oes gennym ddim i’w adrodd mewn perthynas â’r materion canlynol, y mae'n ofynnol i ni adrodd i chi amdanynt dan Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, os ydym o’r farn:

- nad yw’r Gronfa wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw datganiadau ariannol y Gronfa yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a’r esboniadau sydd eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

### Cyfrifoldebau’r ymddiriedolwr am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau’r Ymddiriedolwyr ar dudalen 6, mae’r ymddiriedolwr yn gyfrifol am baratoi’r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn yr ymddiriedolwr er mwyn paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r Gronfa i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio sail gyfrifyddu busnes hyfyw oni bai bod yr ymddiriedolwr naill ai'n bwriadu diddymu'r Gronfa neu ddod â gweithrediadau i ben, neu nad oes ganddynt ddewis arall ond gwneud hynny.

### Cyfrifoldebau’r Archwilydd am archwilio’r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw’r datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad o bwys, boed hynny trwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad yr archwilydd sy’n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel o sicrwydd, ond nid yw’n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) yn canfod camddatganiad o bwys bob amser. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe’u hystyrir yn sylweddol os gellid disgwyl yn rhesymol y byddant, yn unigol neu gyda’i gilydd, yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd a wneir gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rydym yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y gall ein gweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r Gronfa a'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo, nodwyd gennym y prif risgiau o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau sy'n ymwneud â chyfraith elusennau cymwys Cymru a Lloegr, a buom yn ystyried i ba raddau y gallai diffyg cydymffurfio gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Hefyd, ystyriwyd y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar baratoi'r datganiadau ariannol fel Deddf Elusennau 2011.

Gwerthuswyd cymhellion a chyfleoedd y rheolwyr ar gyfer trin y datganiadau ariannol yn dwyllodrus (gan gynnwys y risg o ddiystyru rheolaethau). Roedd y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir gan y tîm ymgysylltu yn cynnwys:

- Arolygu gohebiaeth â rheoleiddwyr;
- Trafodaethau gyda'r rheolwyr gan gynnwys ystyried achosion hysbys neu achosion tybiedig o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoleiddio â thwyll;
- Adolygu rheolaethau a gweithdrefnau'r gronfa sy'n berthnasol i baratoi'r

datganiadau ariannol i sicrhau bod y rhain ar waith gydol y flwyddyn, gan gynnwys adeg cyfnod gweithio o bell Covid-19;

- Gwerthuso rheolaethau'r rheolwyr a gynlluniwyd i atal a chanfod afreoleidd-dra;
- Nodi a phrofi cofnodion, yn enwedig cofnodion a nodwyd gyda chyfuniadau cyfrif anarferol, cofnodion gan ddefnyddwyr anarferol neu gyda disgrifiadau anarferol; a
- Herio rhagdybiaethau a dyfarniadau a wnaed gan y rheolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifyddu beirniadol.

Gan fod yna gyfyngiadau annatod yn gysylltiedig ag archwiliad mae perygl na fyddwn yn canfod pob achos o afreoleidd-dra, yn cynnwys y rhai sy'n arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol neu ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau. Mae'r risg hon yn cynyddu po fwyaf mae cydymffurfio â chyfraith neu reoleiddio'n cael ei dynnu o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, gan y byddwn yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfio. Mae'r risg yn fwy hefyd gydag achosion o afreoleidd-dra yn sgil twyll yn hytrach na chamgymeriad, gan fod twyll yn cynnwys bwriad cudd, ffugio, cydgynllwynio, hepgor neu gam-gynrychioli.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad yr archwilydd.

## Defnydd o'n hadroddiad

Darperir yr adroddiad hwn i ymddiriedolwr yr elusen yn unig, fel corff, yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a'r rheoliadau a wnaed dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan wrth ymddiriedolwr yr elusen y materion hynny y mae gofyn i ni eu datgan mewn adroddiad Archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, mewn perthynas â'n gwaith archwilio, yr adroddiad hwn, neu ein barn.

Haysmacintyre LLP
10 Queen Street Place
Llundain
EC4R 1AG

26 Mehefin 2023

## Datganiad o Gyfanswm y Derbyniadau

### Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022

| | Nodiadau | **2022** £ | 2021 £ |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Cyfalaf Net (colledion) / enillion | 2 | **(6,469,147)** | 9,076,408 |
| Refeniw | 3 | **1,777,368** | 1,623,227 |
| **Gwariant** | 4 | **(252,118)** | (266,655) |
| **Cyfanswm y Derbyniadau cyn dosbarthu** | | **(4,943,897)** | 10,432,980 |
| Dosbarthiad i Gyfranddalwyr | 5 | **(1,525,251)** | (1,356,572) |
| **Newid yn yr asedau net i'w priodoli i Gyfranddalwyr o Weithgareddau Buddsoddi** | | **(6,469,148)** | 9,076,408 |

## Datganiad o'r Newid mewn Asedau Clir i'w priodoli i Gyfranddalwyr

### Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022

| | **2022** £ | 2021 £ |
|---|---|---|
| Asedau net cychwynnol i'w priodoli i Gyfranddalwyr | **77,473,702** | 68,397,294 |
| Newid mewn asedau net i'w briodoli i Gyfranddalwyr o Weithgareddau Buddsoddi | **(6,469,148)** | 9,076,408 |
| **Asedau net terfynol i'w priodoli i Gyfranddalwyr** | **71,004,554** | 77,473,702 |

# Mantolen

## Ar 31 Rhagfyr 2022

| | Nodiadau | 2022 £ | 2021 £ |
|---|---|---|---|
| **Buddsoddiadau:** | | | |
| Gwarantau'r Gyfnewidfa Stoc | 6 | **69,404,652** | 71,370,093 |
| Adneuon ar y Farchnad Arian | 7 | **1,899,776** | 6,279,306 |
| | | **71,304,428** | 77,649,399 |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Dyledwyr | 8 | **178,739** | 174,536 |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 9 | **(478,613)** | (350,233) |
| Dyledion Cyfredol Net | | **(299,874)** | (175,697) |
| **Asedau Net** | | **71,004,554** | 77,473,702 |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Asedau Net i'w priodoli i Gyfranddalwyr | | **71,004,554** | 77,473,702 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 12 i 17 gan Gorff y Cynrychiolwyr ar 26 Mehefin 2023.

Yr Athro Medwin Hughes, Cadeirydd

Hilary Wiseman, Dirprwy Gadeirydd

# Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

## 1. Polisïau Cyfrifyddu

Paratowyd datganiadau ariannol Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru ar y sail busnes hyfyw yn unol â Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys FRS 102 "The Financial Reporting Standard Applicable in the UK and Republic of Ireland" ac a weithredir drwy'r gyfraith (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig). Rhoddir isod grynodeb o'r prif bolisïau cyfrifyddu ac fe'u cymhwyswyd yn gyson.

a) **Sail y paratoi**
Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol fel yr addaswyd gan yr ailbrisio blynyddol ar asedau buddsoddi ac yn unol â'r datganiad o Arfer a Argymhellir at Gronfeydd Awdurdodedig a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Rheoli Buddsoddiadau ym mis Mai 2014 (IMA SORP 2014) fel y'i diwygiwyd / diweddarwyd yn Rhagfyr 2015.

b) **Cydnabod Refeniw**
Cronnwyd yn llawn y llog ar fenthyciadau tymor byr ac adneuon. Credydwyd llogau a difidendau ar warantau'r gyfnewidfa stoc ar ddyddiad eu derbyn.

c) **Gwariant**
Cronnwyd pob gwariant yn llawn.

d) **Buddsoddiadau**
Datgenir gwarantau'r gyfnewidfa stoc ar werth y farchnad, yn seiliedig ar brisiau cynnig ar 31 Rhagfyr 2022. Trosir gwarantau arian tramor i sterling ar y raddfa gyfnewid ar ddyddiad y fantolen.

e) **Dyfarniadau, amcangyfrifon a rhagdybiaethau cyfrifyddu arwyddocaol**
Nid yw rheolwyr wedi gwneud unrhyw ddyfarniadau cyfrifyddu yn y gyfres hon o ddatganiadau ariannol na'r cyfnod blaenorol.

| 2. Cyfalaf Net (Colledion) / Enillion | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Enillion a wireddwyd | **1,861,964** | 1,835,984 |
| (colledion) / enillion heb eu gwireddu | **(9,899,221)** | 5,533,044 |
| Cyfraniadau net | **1,568,110** | 1,707,380 |
| | **(6,469,147)** | 9,076,408 |

| 3. Refeniw | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Gwarantau'r Gyfnewidfa Stoc | **1,774,055** | 1,623,201 |
| Llog ar Adneuon y Farchnad Arian | **3,313** | 26 |
| | **1,777,368** | 1,623,227 |

## Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

| 4. Gwariant | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Ffioedd rheolwr y gronfa | **234,982** | 246,879 |
| Ffioedd ceidwad | **11,496** | 14,136 |
| Ffioedd mesur perfformiad | **5,640** | 5,640 |
| | **252,118** | 266,655 |

| 5. Dosbarthiad i Gyfranddalwyr | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Talwyd | **1,109,886** | 1,075,784 |
| Cynigiwyd | **415,365** | 280,788 |
| | **1,525,251** | 1,356,572 |

| 6. Gwarantau'r Gyfnewidfa Stoc | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Gwerth y farchnad ar 1 Ionawr | **71,370,093** | 66,564,319 |
| Ychwanegiadau | **22,505,010** | 8,430,447 |
| Gwarediadau | **(14,571,230)** | (9,157,717) |
| Net (gostyngiad) / cynnydd ar ailbrisio | **(9,899,221)** | 5,533,044 |
| Gwerth y farchnad ar 31 Rhagfyr | **69,404,652** | 71,370,093 |
| | | |
| Cost hanesyddol ar 31 Rhagfyr | **59,448,614** | 51,514,834 |
| Enillion nas gwireddwyd a gyfrifwyd ar sail hanesyddol | **9,956,038** | 19,855,259 |
| | | |
| Rhestrwyd yn y DU | **33,166,573** | 33,867,838 |
| Rhestrwyd dramor | **36,238,079** | 37,502,255 |
| | **69,404,652** | 71,370,093 |

| 7. Adneuon y Farchnad Arian | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Cyfalaf Buddsoddi a ddelir mewn arian | **1,599,902** | 6,103,609 |
| Adneuon ar y Farchnad Arian | **299,874** | 175,697 |
| | **1,899,776** | 6,279,306 |

| 8. Dyledwyr | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Symiau'n ddyledus gan Reolwyr y Gronfa | **178,739** | 174,536 |
| | **178,739** | 174,536 |

| 9. Credydwyr: symiau i'w talu o fewn blwyddyn | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Symiau'n ddyledus i Gyfranddalwyr | **415,365** | 280,788 |
| Credydwyr eraill | **63,248** | 69,445 |
| | **478,613** | 350,233 |

## 10. Offerynnau Ariannol

Mae offerynnau ariannol y Gronfa'n cynnwys gwarantau a buddsoddiadau eraill, balansau Arian parod a dyledwyr a chredydwyr sy'n codi'n uniongyrchol o'i gweithrediadau.

Mesur Gwerth Teg - Mae'r holl fuddsoddiadau a ddelir gan Gorff y Cynrychiolwyr yn fuddsoddiadau Lefel 1 sy'n cynnwys bondiau, ecwitïau ac arian parod.
Y prif risgiau mae'r Gronfa'n eu hwynebu yn ei gweithgareddau rheoli portffolio yw:
**a) Risg arian cyfred tramor**
**b) Risg pris y farchnad**

Mae'r polisïau ar gyfer rheoli'r risgiau hyn wedi'u crynhoi isod ac wedi'u cymhwyso trwy gydol y flwyddyn.

**a) Risg arian cyfred tramor**

Gall cyfran o asedau ariannol y Gronfa fod mewn arian cyfred penodedig ac eithrio sterling gyda'r canlyniad fod Datganiad Cyfanswm y Derbyniadau a Datganiad y Newid mewn Asedau Clir a briodolir i Gyfranddalwyr yn gallu cael eu heffeithio gan symudiadau mewn arian cyfred.

**Rheoli'r risg**

Mae Rheolwr y Gronfa yn monitro'r graddau mae'r Gronfa yn agored i arian cyfred tramor yn ddyddiol ac yn mesur y risg i'r Gronfa o fod yn agored i arian cyfred tramor.

**Sensitifrwydd arian cyfred tramor**

Mae'r tabl canlynol yn dangos sensitifrwydd yr enillion net ar gyfer Sterling yn erbyn Doler UDA a'r Ewro, ac yn tybio cynnydd neu leihad o 10.6% (2021: 1%) ar Ddoler UDA ac 5.2% (2021: 8%) ar yr Ewro mewn cyfraddau cyfnewid. Mae Doler UDA a'r Ewro yn cynrychioli 76.3% o elfen dramor y Gronfa.

Pennwyd y ganran hon ar sail anwadalwch marchnad y cyfraddau cyfnewid dros y deuddeg mis blaenorol. Seilir y dadansoddiad sensitifrwydd ar offerynnau ariannol arian cyfred tramor y Gronfa a ddaliwyd ar ddiwedd y flwyddyn.

## Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Pe bai Sterling wedi gwanhau dyma fyddai'r effaith wedi bod ar werth y buddsoddiadau:

| | **2022** | 2021 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Doler UDA | **2,560,000** | 227,819 |
| Yr Ewro | **185,000** | 421,327 |
| | **2,745,000** | 649,146 |

Pe bai Sterling wedi cryfhau dyma fyddai'r effaith wedi bod ar werth y buddsoddiadau:

| | **2022** | 2021 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Doler UDA | **(2,560,000)** | (227,819) |
| Yr Ewro | **(185,000)** | (421,327) |
| | **(2,745,000)** | (649,146) |

**b) Risg Pris y Farchnad**

Gall gwerth teg buddsoddiadau a ddelir gan y Gronfa amrywio yn sgil newidiadau i brisiau'r farchnad.

Mae Rheolwr y Gronfa'n asesu'r risg o fod yn agored i'r farchnad wrth wneud pob penderfyniad ar fuddsoddi, ac yn monitro lefel gyffredinol risg y farchnad ar y portfolio buddsoddi yn barhaus.

**Rheoli'r Risg**

Mae'r Pwyllgor Buddsoddi'n adolygu'r portffolio bob chwarter ac yn monitro cyfanswm yr elw ar y portffolio yn erbyn y meincnod.

**Sensitifrwydd risg yn sgil prisiau eraill**

Mae'r canlynol yn dangos sensitifrwydd yr elw net am y flwyddyn a'r ecwiti i gynnydd neu leihad o 20% (2021: 20%) yng ngwerth teg ecwitïau'r Gronfa. Ystyrir y lefel hon o newid yn rhesymol bosibl ar sail arsylwadau o gyflwr y farchnad yn ystod y flwyddyn. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd yn seiliedig ar ecwitïau'r Gronfa ar ddyddiad y fantolen, gyda'r holl newidynnau eraill yn cael eu dal yn gyson.

| | **2022** | | 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cynnydd mewn gwerth teg £** | **Gostyngiad mewn gwerth teg £** | Cynnydd mewn gwerth teg £ | Gostyngiad mewn gwerth teg £ |
| Effaith ar enillion cyfalaf | **14,253,467** | **(14,253,467)** | 15,561,767 | (15,561,767) |

### 11. Trafodion Parti Perthynol

Mae Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru yn Ymddiriedolwr o'r Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin ac yn talu costau gweinyddol y Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin gan gynnwys y ffi archwilio.